Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Llanymddyfri, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 10 Medi 2024
Dyddiad cyhoeddi: 11 Rhagfyr 2024





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83715-022-9


© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 16

4. Y camau nesaf ........ 19

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 20

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 21

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Llanymddyfri, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 10 Medi 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd chwech gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan staff proffesiynol a chyfeillgar. Dywedodd pob un o'r cleifion bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda' a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith i gynnal hawliau'r cleifion a oedd yn cael eu trin yn y lleoliad hwn. Roedd yr holl adborth gan y cleifion yn gadarnhaol gyda sylwadau cefnogol wedi'u hysgrifennu ar ffurflenni adborth y cleifion.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar ofal pan oedd ei angen arnynt, a gwelsom fod prosesau brysbennu cadarn ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal brys mewn modd amserol. Gwelsom hefyd fod y system rheoli apwyntiadau yn addas.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol
- Mae trefniadau cefnogol ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion.

## Darparu  Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd y practis yn daclus, yn drefnus ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff, yn ogystal â pholisïau atal a rheoli heintiau. Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn lân iawn.

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith i reoli meddyginiaethau ac argyfyngau meddygol yn addas. Ar y cyfan, gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon addas, ond nodwyd gennym y gellid gwella'r cofnodion mewn perthynas â chyngor ar roi'r gorau i smygu ac anghenion cyfathrebu'r cleifion.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyngor ar roi'r gorau i smygu, ac anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion
- Roedd y triniaethau radiograffig yn cael eu rheoli'n briodol, ac roedd cofnodion yn cael eu cadw i safon foddhaol
- Roedd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod cyfarpar amldro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn eu rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt. Ar y cyfan, gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff a gwnaethom nodi amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis a oedd yn golygu bod lefel dda o ofal yn cael ei rhoi i'r cleifion.

Gwelsom fod dull addas o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Gwelsom fod gan y practis gydberthnasau gwaith da â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol, meddyg teulu a fferyllfa.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau geirda addas yn cael eu cynnal neu roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau cefnogol ar waith i roi'r Ddyletswydd Gonestrwydd ar waith
- Roedd system gynhwysfawr ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion
- Roedd yr holl adborth a gawsom gan y staff yn gadarnhaol.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

# Ansawdd Profiad y Claf

## Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal a ddarperir gan Bractis Deintyddol Llanymddyfri. Cafwyd cyfanswm o naw ymateb gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd naw ymateb ar gyfer pob cwestiwn.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’ (8/9) neu'n ‘dda’ (1/9). Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Mae rhai o'r bobl fwyaf cyfeillgar rwyf wedi dod ar eu traws yn gweithio yn y practis hwn.”*

> *“Mae'r practis hwn yn darparu gwasanaeth eithriadol o'r alwad gyntaf hyd at ddiwedd y driniaeth. Mae staff y dderbynfa bob amser yn gyfeillgar ac yn barod i helpu. Practis ardderchog."*

> *"Gwasanaeth rhagorol bob amser."*

## Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion**

Roedd gwybodaeth foddhaol ar gael i'r cleifion i hyrwyddo iechyd y geg da. Dywedodd y staff wrthym fod gwybodaeth yn cael ei rhoi ar lafar i gleifion yn dilyn eu hapwyntiadau, yn arbennig mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu ac arweiniad ar sut i frwsio dannedd yn effeithiol. Roedd datganiad o ddiben a thaflen gwybodaeth i gleifion y practis ar gael i'r cleifion eu gweld ar gais. Gwelsom fod y ffioedd ar gyfer gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG yn cael eu harddangos yn glir yn y dderbynfa. Roedd enwau pob aelod o'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd wedi'u nodi yn ardal y dderbynfa ac yn y daflen wybodaeth i gleifion yn yr ardal aros. Gwelsom fod yr oriau agor a'r manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld y tu allan i'r practis.

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hiechyd y geg yn cael ei esbonio iddynt mewn modd y gallent ei ddeall. Roedd pob un o'r ymatebwyr

hefyd yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da.

### Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal a oedd yn dangos urddas a pharch drwy gydol eu hamser ym Mhractis Deintyddol Llanymddyfri. Dywedwyd wrthym fod cleifion sydd am gael sgwrs gyfrinachol â staff y dderbynfa yn cael cynnig sgwrs mewn man lle na allai neb arall eu clywed. Gwelsom fod ardal y dderbynfa wedi'i chysylltu â'r ardal aros, ond dywedodd staff y dderbynfa wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth breifat am gleifion yn cael ei hailadrodd dros y ffôn er mwyn amddiffyn preifatrwydd cleifion. Roedd cytundebau cyfrinachedd wedi'u llofnodi ar waith, a oedd yn nodi'r disgwyliad ar y staff i sicrhau preifatrwydd gwybodaeth am gleifion.

Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Gwelsom fod gwydr barugog ar ffenestri'r holl ystafelloedd trin er mwyn diogelu preifatrwydd cleifion yn y deintyddfeydd. Gwelsom fod y Naw Egwyddor a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

Nododd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur staff AGIC fod urddas a phreifatrwydd cleifion bob amser yn cael eu cynnal. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd un claf:

> *"Rydych yn cael eich trin ag urddas a pharch."*

### Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth a oedd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am y risgiau, y manteision a'r gost. Cadarnhaodd cleifion ac ymatebwyr i'r holiadur staff bod cleifion yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth.

Nododd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno eu bod wedi cael canllawiau addas ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos haint neu argyfwng.

## Amserol

### Gofal amserol

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio amser ymarferwyr drwy reoli apwyntiadau mewn ffordd effeithiol. Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau ar-lein,

dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Lle byddai apwyntiadau yn mynd dros yr amser a neilltuwyd ar eu cyfer, gallai'r clinigwyr ddefnyddio systemau'r practis i roi gwybod i'r dderbynfa a fyddai wedyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod clinigwyr yn brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn sicrhau bod y rhai â'r anghenion mwyaf dybryd yn cael eu blaenoriaethu. Cadarnhaodd y staff fod y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth 111 y GIG i drin apwyntiadau brys y GIG yn ardal y bwrdd iechyd. Gwelsom hefyd fod slotiau yn y dyddiadur bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld mewn argyfwng.

Dywedodd y staff wrthym ar y cyfan nad oedd cleifion yn aros mwy na phythefnos i gael apwyntiad arferol. Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu'n unol ag argaeledd y cleifion lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd y system trefnu apwyntiadau ar-lein hefyd yn galluogi cleifion i ddewis amser a dyddiad o'u dewis.

Dywedodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Nododd yr ymatebwyr hefyd eu bod wedi ei chael hi'n ‘hawdd iawn’ (8/9) neu'n ‘eithaf hawdd’ (1/9) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd adnoddau cyfieithu ar-lein yn cael eu defnyddio, lle y bo angen, i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol, gyda dogfennau mwy arbenigol yn cael eu darparu ar gais.

Gwelsom dystiolaeth gref fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ a gwelsom dystiolaeth o'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn ffordd ragweithiol yn y practis. Gwelsom fod y staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynnau ‘Iaith Gwaith’ ac y gellid cynnig triniaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl yr angen.

### Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom bolisi cyfle cyfartal ac amrywiaeth addas yn ogystal â pholisi derbyn cleifion, yr oedd y ddau yn hyrwyddo mynediad cyfartal i driniaeth i bob claf. Gwelsom enghreifftiau o arferion da ac roedd rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant penodol er mwyn diogelu hawliau'r cleifion, ac ar atal achosion o

aflonyddu neu wahaniaethu. Gwelsom hefyd fod polisi dim goddefgarwch cadarn ar waith mewn perthynas â gwahaniaethu.

Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Gwelsom fod gan y practis ddull addas o helpu cleifion a staff yr oedd angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ar eu cyfer. Roedd hyn yn cynnwys cadair arbenigol yn y dderbynfa i gleifion â phroblemau symudedd. Roedd asesiadau desg hefyd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn eistedd yn briodol ac yn ddiogel, ac roedd newidiadau yn cael eu gwneud i'w seddi o ganlyniad i hynny. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod yr adeilad yn hygyrch.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**

Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y practis yn daclus ac yn drefnus ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis wedi'i osod yn addas dros ddau lawr, gyda deintyddfeydd ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, yr oedd un ohonynt wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar. Roedd ardal y dderbynfa o faint priodol i gefnogi nifer y cleifion, ac roedd pob ardal wedi'i chwblhau i safon uchel. Roedd y goleuadau, y systemau gwresogi, y systemau awyru a'r arwyddion i gyd yn foddhaol.

Dywedodd pob un a ymatebodd i'r holiadur staff fod ganddynt y cyfleusterau priodol i gyflawni eu rolau. Dywedodd pob aelod o'r staff hefyd fod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n effeithiol. Roedd toiledau glân a oedd yn cynnwys cyfarpar addas i staff a chleifion, gan gynnwys toiled ar y llawr gwaelod ar gyfer y rhai â gofynion hygyrchedd. Gwelsom ardaloedd newid addas i staff ac roedd loceri ar gael i'r staff.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol. Roedd chwyddwydrau a dyfeisiau ailorchuddio yn cael eu defnyddio i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch, ac roedd polisi parhad busnes addas ar waith hefyd. Wrth edrych ar y cyfarpar a'r wybodaeth diogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith mewn perthynas â diogelwch tân. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir.

Roedd tystysgrif diogelwch nwy addas, ynghyd â thystysgrif ar gyfer profion offer cludadwy ac adroddiad ar brawf gosodiadau trydanol ar gael i'w harchwilio. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau priodol ar waith i gynnal lefel dda o lendid ac amgylchedd gwaith diogel. Dywedodd pob aelod o

staff a ymatebodd i'r holiadur a ddosbarthwyd gan AGIC fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn y practis. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael iddynt er mwyn gallu gofalu am gleifion unigol yn ddiogel. Gwelsom fod trefniadau ac arwyddion hylendid dwylo priodol yn cael eu defnyddio hefyd. Gwelsom hefyd fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Cafodd hyn ei gefnogi gan ymatebwyr i'r arolwg staff a ddywedodd wrthym fod amgylchedd y practis yn caniatáu arferion rheoli heintiau effeithiol. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar brosesau dihalogi cywir.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn lân iawn. Nododd pob un o'r ymatebwyr hefyd fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn briodol.

Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod cyfarpar amldro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir yn ystafell ddihalogi'r practis. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod gwiriadau dyddiol priodol yn cael eu cynnal o gylchredau'r peiriant awtoclaf a bod amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd ar waith.

Gwelsom fod y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol. Roedd holl wastraff y practis yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy gontract gwaredu gwastraff addas.

**Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn addas. Nodwyd gennym fod polisi boddhaol ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel. Gwelsom fod system ddiogel ar waith ar gyfer storio pad presgripsiynau'r practis. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n addas.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Yng nghofnodion y staff, gwnaethom nodi bod yr holl gymwysterau adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf yn cydymffurfio â'r gofynion.

**Diogelu plant ac oedolion**

Roedd gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y rhain yn cynnwys datganiad amddiffyn plant a pholisi diogelu

plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn darparu manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol, yn nodi arweinydd diogelu dynodedig ac yn cynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad ddealltwriaeth foddhaol o weithdrefnau diogelu gan ddweud eu bod yn teimlo y byddent yn cael eu cefnogi pe byddent yn codi pryder.

**Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd yr holl gyfarpar deintyddol amldro a ddefnyddir gan y practis yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol.

Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i'r holiadur staff a ddosbarthwyd gan AGIC fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom fod y nodiadau clinigol ar gyfer triniaethau radiograffig wedi cael eu cwblhau'n llawn. Nododd y clinigwyr fod y cleifion yn cael eu hysbysu'n briodol am risgiau a manteision ymbelydredd a gwelsom fod cysylltiadau ag ymbelydredd yn cael eu nodi'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Nodwyd gennym ei bod hi'n hawdd cael gafael ar y rheolau lleol ym mhob deintyddfa. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

## Effeithiol

**Gofal effeithiol**

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol.

**Cofnodion cleifion**

Gwelsom sampl o gofnodion deg claf a gwelsom fod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gwelsom fod polisi rheoli cofnodion addas ar waith. Roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun llawn o'r gofal roedd cleifion yn ei gael, gan gynnwys cofnod addas o archwiliadau y tu mewn a'r tu allan i'r geg, siartiau sylfaenol ac archwiliadau meinweoedd meddal. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu a gynigiwyd na dewisiadau iaith y cleifion ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewisiadau hyn bob amser yn cael eu cofnodi.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyngor ar roi'r gorau i smygu, ac anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.**

Cadarnhaodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn unrhyw driniaeth. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth a bod eu triniaethau wedi cael eu hesbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall. Roedd y dystiolaeth a welsom yng nghofnodion y cleifion yn ategu hyn.

## Effeithlon

**Effeithlon**

Gwelsom fod y clinigwyr yn darparu gwasanaeth boddhaol i ddiwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol yn effeithlon. Gwelsom fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol o ganlyniad i gymysgedd priodol o sgiliau a phroses trefnu apwyntiadau a brysbennu gadarn.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac arweinyddiaeth**

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Gwelsom fod polisïau yn cael eu hadolygu'n briodol, a bod unrhyw newidiadau yn cael eu cyfleu i'r staff. Gwelsom fod y practis wedi cwblhau Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn ddiweddar er mwyn helpu i ddatblygu'r tîm a hyrwyddo arferion da. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth edrych ar gofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau ynghylch iechyd a diogelwch yn ogystal â staffio, cyfarpar diogelu personol ac argyfyngau meddygol.

Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn eu rheolwyr ac y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt. Esboniodd rheolwr y practis ei fod wedi cael y cymorth a'r hyfforddiant priodol i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus, yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn cefnogi ei gilydd.

## Y Gweithlu

**Gweithlu medrus a galluog**

Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod niferoedd priodol o staff sy'n meddu ar gymwysterau addas yn gweithio yn y practis bob amser. Roedd rheolwr y practis yn monitro cofrestriadau pob un o'r clinigwyr â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan ddefnyddio'r system addas. Roedd trefniadau sefydlu ac arfarnu cadarn ar waith, a oedd yn cael eu goruchwylio gan reolwr y practis drwy ymgynghori â'r prif ddeintydd neu'r rheolwr ardal. Roedd arfarniadau cyfredol a boddhaol ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff ar ffeil.

Nodwyd gennym fod polisi chwythu'r chwiban priodol ar waith a dywedodd pob un a ymatebodd i'r holiadur staff fod y practis yn eu hannog i roi gwybod am wallau neu bryderon. Dywedodd y staff hefyd y byddent yn cael eu trin yn deg pe byddent yn rhoi gwybod am bryderon a bod y practis yn cymryd camau i sicrhau na fyddai digwyddiadau yn ailadrodd.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion a oedd ar gael ar gyfer 6 o'r 15 o aelodau o staff, a gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant. Gwelsom fod yr holl dystysgrifau hyfforddiant ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael amser i gwblhau gweithgareddau dysgu a datblygu, ac esboniodd

rheolwr y practis fod amser yn cael ei neilltuo i'r staff gwblhau hyfforddiant yn rheolaidd. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i'r holiadur staff a ddosbarthwyd gan AGIC eu bod yn cael cynnig  hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rolau. Dywedodd un aelod o'r staff:

*"Mae gen i rwydd hynt i drafod amrywiaeth o ddyletswyddau estynedig a chaf fy annog i ymgymryd â nhw."*

Gwelsom gydymffurfiaeth dda â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r gwiriadau cyn cyflogi yn y chwe chofnod staff a welsom. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff er mwyn gwirio manylion staff cyn iddynt gael eu cyflogi. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Dim ond un gwiriad geirda oedd gan ddau aelod o'r staff yn eu ffeil. Gwelsom gofnodion o ymdrechion a wnaed i gael ail wiriad geirda gan wahanol gyflogwyr
- Nid oedd gan un aelod o'r staff a oedd wedi gweithio yno ers cyfnod hwy unrhyw wiriadau geirda yn ei ffeil. Cawsom wybod fod yr aelod hwn o'r staff wedi cael ei recriwtio cyn i'r tîm rheoli presennol gymryd yr awenau, a'i fod wedi gweithio yn y practis ers dros 20 mlynedd.

Roedd asesiad risg ar waith mewn perthynas â'r wybodaeth goll ar gyfer un o'r aelodau hyn o staff. Cafodd y practis ei annog i barhau i ymdrechu i gael geirdaon ar gyfer yr aelodau o staff neu i gwblhau asesiadau risg ar gyfer y ddau gyflogai arall.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau geirda addas yn cael eu cynnal neu roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll.**

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod system gadarn ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion ym Mhractis Deintyddol Llanymddyfri. Roedd adolygiadau gwasanaeth cwsmeriaid yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau ar-lein ar ôl iddynt gael triniaeth. Roedd y prif ddeintydd a'r tîm rheoli yn adolygu'r adborth yn rheolaidd ac roedd unrhyw ymatebion i adborth i'w gweld yn ardal y dderbynfa neu ar-lein.

Roedd y polisi cwynion yn cydymffurfio'n llwyr â gweithdrefn Gweithio i Wella y GIG. Roedd y polisi cwynion i'w weld yn y dderbynfa, ac roedd yn enwi'r aelod o staff y dylai'r cleifion gysylltu ag ef. Roedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi yn ffolder cwynion y practis. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi

cwynion, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, Llais. Roedd cyfeiriadau hefyd at y gwasanaeth Cwynion Deintyddol a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i gleifion godi cwyn â nhw. Ymdriniwyd â'r cwynion a oedd wedi'u cofnodi yn y ffeil yn effeithiol ac yn unol â pholisi'r practis.

Gwelsom fod polisi priodol ar waith yn y practis ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i'r holiadur staff a ddosbarthwyd gan AGIC eu bod yn ymwybodol o'u rôl fel rhan o'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn ei deall. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd eu bod yn deall eu rôl o ran cyflawni'r Ddyletswydd a bod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod i gleifion pan oedd rhywbeth wedi mynd o'i le. Er nad oedd cofnodion o unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd i'w hadolygu, cawsom sicrwydd fod y broses a oedd ar waith yn foddhaol.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

**Gweithgareddau gwella ansawdd**

Gwelsom fod dull addas o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd ac archwiliadau atal a rheoli heintiau.

## Dull systemau cyfan

**Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Amlinellodd y staff ddulliau addas o gyfathrebu â darparwyr gwasanaethau iechyd eraill, gan esbonio sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol, meddyg teulu a fferyllfa. Gwelsom fod proses briodol ar waith i olrhain unrhyw atgyfeiriadau a wnaed at ddarparwyr gwasanaethau eraill.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llanymddyfri

## Dyddiad yr arolygiad: 10 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llanymddyfri

## Dyddiad yr arolygiad: 10 Medi 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Gwelsom nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu a gynigiwyd na dewisiadau iaith y cleifion ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewisiadau hyn bob amser yn cael eu cofnodi. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyngor ar roi'r gorau i smygu, ac anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi. | Adran 20 (1)<br><br>Adran 13 (1) (A) | Ailbwysleisio pwysigrwydd cofnodi materion clinigol ar y pryd, gan gynnwys cyngor ar roi'r gorau i smygu, ar gyfer pob claf. | Susan Clarke | Wedi ei weithredu'n anffurfiol, ond bydd hefyd yn rhan o'r cofnodion pan gaiff y pwnc ei drafod yn ffurfiol yn ein Cyfarfod Practis chwarterol ar 5 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Tachwedd 2025. |
| **2.** | Dim ond un gwiriad geirda oedd gan ddau aelod o'r staff yn eu ffeil. Gwelsom gofnodion o ymdrechion a wnaed i gael ail wiriad geirda gan wahanol gyflogwyr Nid oedd gan un aelod o'r staff a oedd wedi gweithio yno ers cyfnod hwy unrhyw wiriadau geirda yn ei ffeil. Cawsom wybod fod yr aelod hwn o'r staff wedi cael ei recriwtio cyn i'r tîm rheoli presennol gymryd yr awenau, a'i fod wedi gweithio yn y practis ers dros 20 mlynedd. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth i ddangos bod gwiriadau geirda addas yn cael eu cynnal neu roi sicrwydd i AGIC o'r camau sydd ar waith i liniaru'r risg mewn perthynas â'r cofnodion o wiriadau cyn cyflogi sydd ar goll. | Adran 18 (2) | Cwblhau asesiadau risg ar gyfer aelodau o staff â llai na 2 eirda. | Susan Clarke | Wedi gweithredu eisoes. Caiff asesiadau risg bellach eu cadw fel rhan o ffeil yr aelodau perthnasol o staff ac maent ar gael ar gais. |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Susan Clarke**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 14/10/2024**